

# ADRODDIAD GWERTHUSIAD DIWEDD PROSIECT:

# DYFODOL CAMBRIAN FUTURES

Mawrth 2022

Deio Jones: R4C

Resources for Change

## CYNNWYS

**RHAGYMADRODD** 2

CYDNABYDDIAETHAU 2

**METHODOLEG GWERTHUSO** 3

**CRYNODEB GWERTHUSO DROS DRO** 4

GWERTHUSIAD DROS DRO: RHAGFYR 2019 4

**GWERTHUSIAD DIWEDD PROSIECT** 4

ALLBYNNAU'R PROSIECT 5
CANLYNIADAU'R PROSIECT 6
AMCANION EHANGACH Y PROSIECT 7
CANFYDDIADAU RHANDDEILIAID 8
AROLYGON ARLEIN 12
*crynodeb o ymatebion busnesau* *12*
sylwadau gan fusnesau 13
*crynodeb o ymatebion cymunedol* *13*

**DADANSODDIAD** 14

*A ydym wedi llwyddo i gyrraedd canlyniadau a'r allbynau a ganfyddwyd?* *14*
*Pa mor effeithiol y bu systemau'r prosiect a'r llywodraethiant?* *14*
*BETH YW PRIF EFFEITHIAU'R PROSIECT?* *14*
*BETH YW'R GWADDOL ALLWEDDOL?* *15*
*pa wersi a ddysgwyd a all gyfarwyddo datblygiad yn rhanbarth mynyddoedd cambria yn y dyfodol?* *15*

**CASGLIADAU** 16

**Y CAMAU NESAF** 16

## RHAGYMADRODD

Mae prosiect Dyfodol Cambrian Futures yn ceisio rhyddhau potensial ardal Mynyddoedd Cambria  trwy ymdriniaeth integreiddiedig i ddatblygiad cynaliadwy sy'n cydnabod tirwedd a gwerth naturiol a diwylliannol Mynyddoedd Cambria. Mae'r prosiect yn adeiladu ar waith Menter Mynyddoedd Cambria (MMC) ac fe fydd yn archwilio ymdriniaethau arloesol ar ddatblygiad cynaliadwy a fydd, o bosib, â goblygiadau ar gyfer Tirwedd Cenedlaethol Cymru ynghyd ag ardaloedd eraill o dirwedd answadd uchel.

### CYDNABYDDIAETHAU

Hoffem ddiolch i'r unigolion, mudiadau a'r busnesau lleol sydd wedi rhoi o'u hamser yn garedig er mwyn cyfrannu at y broses gwerthuso hwn dros y bum mlynedd diwethaf.

Hoffai'r grŵp llywio a swyddogion y prosiect ddefnyddio'r cyfle yma i gydnabod a diolch i'r holl gyllidwyr unigol sydd wedi cyfrannu, ynghyd â'r holl grwpiau, mudiadau a'r busnesau sydd wedi cefnogi ac wedi bod ynghlwm â'r brosiect. Gobeithiwn y cawn gyfle i gydweithio â chi yn y dyfodol.

## METHODOLEG GWERTHUSO

Yn Rhagfyr 2018 gweithiodd Steve Evison & Alison Davies o R4C gyda thîm y prosiect gan ddatblygu Cynllun Gwerthuso ar gyfer y prosiect. O ganlyniad i natur ymchwiliol y prosiect, rhagwelwyd y byddai'n broses ailadroddus, gyda phob sesiwn gwerthusol yn cyfrannu at gymal nesaf y brosiect.

Fodd bynnag, cafodd yr ymdriniaeth hon ei phrofi i'r eithaf yn sgil yr amharu a fu yn wyneb gofynion y pandemig COVID-19, a effeithiodd ar gyflawni ail hanner y prosiect. Yn benodol, gyda chyfyngiadau COVID-19 yn cwtogi ar ymgysylltu a chydweithio, ynghyd â'r tarfu ar y diwydiant ymwelwyr gan wneud unrhyw ymgais at fesur effaith economaidd uniongyrchol y prosiect yn dasg amhosibl.

Gwnaethpwyd y penderfyniad i addasu amcanion y gwerthusiad er mwyn sicrhau y byddai'n cynnig yr wybodaeth a'r dysg mwyaf defnyddiol i hysbysu darpariaeth effeithiau hir dymor ac i lywio datblygiadau'r dyfodol. Cyfeirir at yr addasiadau hyn ym mhob adran er mwyn sicrhau eglurder i'r broses.

Pwrpas y Cynllun Gwerthuso a'r fethodoleg a fabwysiadwyd oedd:

- Asesu dylanwadau ac effeithiau prosiect 'Dyfodol Cambrian Futures' gan ddeall y gwahaniaeth y mae wedi gwneud.
- Hyrwyddo proses o addysgu adfyfyriol; adnabod cryfderau a gwendidau fel y gellir dysgu gwersi a chyflwyno newidiadau er mwyn gwella a mireinio'r prosiect wrth iddi ddatblygu.
- Dathlu cyflawniadau'r prosiect a chynnig asesiad agored ac onest o'r hyn a ddigwyddodd.
- Galluogi'r prosiect i ddangos atebolrwydd i'r cyhoedd, gan ddangos bod yr arian yn cael ei wario'n dda a bod y brosiect yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol.
- Creu corff o dystiolaeth er mwyn dangos i bartneriaid, cyllidwyr ac eraill o'r hyn sy'n gweithio er mwyn cyfarwyddo gwaith y dyfodol.
- Ateb gofynion gwerthusol y cyllidwr.

I'r perwyl hwn, datblygwyd cyfres o **Bynciau Gwerthuso Allweddol** a fyddai'n darparu gwybodaeth gwerthfawr nid yn unig ar effaith y cynllun ond hefyd a fyddai'n cyfarwyddo datblygiadau wrth iddynt ddatblygu:


- A ydym wedi gwireddu'r canlyniadau a'r allbwn a ganfyddwyd?
- Pa mor effeithiol y bu systemau'r prosiect a'i llywodraethiant?
- Beth oedd prif effeithiau'r prosiect?
- Beth yw'r gwaddol allweddol?
- Pa wersi a ddysgwyd er mwyn cyfarwyddo datblygiad pellach oddi mewn i ranbarth Mynyddoedd Cambria?

Bydd cyfeirio at y Pynciau Gwerthuso Allweddol hyn yn gosod fframwaith ar gyfer dadansoddi ac adrodd yn ôl ganlyniadau'r Gwerthusiad.

Roedd y broses gwerthuso yn cynnwys:

- gwerthusiad cychwynnol yn Chwefror 2019,
- gwerthusiad hanner-tymor yn Rhagfyr 2019,
- a'r Gwerthusiad terfynol hwn yn gynnar yn 2022 (a ohiriwyd i roi cyfrif am y sefyllfa yn sgil y pandemig COVID-19 a'r estyniad byr i'r prosiect o ganlyniad).

Ymgymerwyd a'r Gwerthusiad Terfynol gan ddefnyddio'r fethodoleg canlynol.



## CRYNODEB GWERTHUSO DROS DRO

Yn yr adran hon rydym wedi cynnwys y casgliad o'r adroddiad gwerthuso dros dro er mwyn gosod cyd-destun i'r gwerthusiad terfynol. Fe'i lluniwyd gan ddilyn proses tebyg i'r adroddiad terfynol hwn, gan dynnu ar gyfweliadau hanner strwythredig ynghyd ag arolwg ar lein er mwyn cefnogi adrodd yn ôl ar allbwn y prosiect a'i gasgliadau. Addaswyd y cynllun gwerthuso gwreiddiol a'r fethodoleg yng ngoleuni cyfyngiadau cyfredol y pandemig COVID 19 a'r cyfyngiadau perthynol ar symudiadau a rhyngweithio personol.

### GWERTHUSIAD DROS DRO: RHAGFYR 2019

Daeth yr adroddiad gwerthuso dros dro i'r casgliad fod y prosiect hyd yma wedi cloriannu ystod eang o bynciau, yn ddaearyddol ac yn amrywiaeth yr ymdriniaethau o'r tasgau a'r pynciau. Bu'r ddau Rheolwr Prosiect rhan amser yn gweithio'n galed ac roedd eu hymrwymiad a'u cred yn y prosiect yn amlwg; yn wir, cyfeiriodd amryw o'r cyfranwyr ar lein a'r atebyddion mewn cyfweliadau at hyn.

Credwyd ei bod yn addas ar yr adeg hon bod y Grŵp Llywio yn cefnogi'r Rheolwyr Prosiect wrth flaenoriaethu is-brosiectau ac felly hepgor rhai neu eu trosglwyddo i asiantaethau neu bartneriaid eraill, neu uwchsgilio/hyfforddi/cefnogi trigolion cefnogol i ymgymryd â swyddogaethau Llysgenhadon/Hyrwyddwyr. Roedd hwn i'w gwblhau erbyn diwedd Ionawr (2020) er mwyn i'r cynllun gwaith ar gyfer blwyddyn olaf y prosiect ganolbwyntio ar gyrraedd yr amcanion ac ychwanegu budd at agweddau gwaith cyfredol sydd wedi arddangos y potensial i ddarparu yr allbwn a ganfyddwyd yn y cais cyllido EAFRD.

Roedd gan y prosiect, ar y cyfan, weledigaeth gwych ond roedd gwireddu'r weledigaeth honno yn mynd i gymryd llawer yn hwy na chyfnod y prosiect hwn. Fodd bynnag, gydag arweinyddiaeth gref ynghyd â disgyblaeth, fel bo'r gwaith yn canolbwyntio ar flaenoriaethau, credid y byddai mewn sefyllfa i gymryd camau sylweddol erbyn diwedd y cyfnod cyllido.

## GWERTHUSIAD DIWEDD PROSIECT

Yn yr adran hon rydym yn gosod allan y canfyddiadau o'r adroddiad gwerthuso terfynol, gan ddilyn, ar y cyfan, y broses o fethodoleg a ddisgrifiwyd uchod. Addaswyd y cynllun gwerthuso gwreiddiol yng ngoleuni cyfyngiadau cyfredol y pandemig COVID-19, a'r cyfyngiadau perthynol ar symudiadau a rhyngweithio personol.

## ALLBYNNAU'R PROSIECT

Disgwylid i brosiect 'Dyfodol Cambrian Futures' osod targedau mesuradwy er mwyn i'r perfformiad cyfredol gael ei arolygu gan y cyllidwr. Mae'r tabl dilynol yn amlinellu'r targedau hyn gan nodi'r cynnydd a'r cyraeddiadau. Maent wedi eu seilio ar y cofnodion prosiect sy'n cael eu crynhoi yn Atodiad A a'u cydlynu trwy'r cyfweliadau gydag aelodau'r Grŵp Llywio a Chyngor Sir Powys fel Prif Bartner y prosiect Arwain Leader. Mae'r targedau hyn yn gwahaniaethu oddi wrth y fframwaith gwerthuso gwreiddiol gan fod rhai ychwanegol wedi eu hategu wrth i'r brosiect ehangu.

***Allwedd RAG** :*

*Coch = problem arwyddocaol / mewn perygl o fethu targed a bo angen gweithredu di-oed i'w gywiro. Posiblilrwydd fod angen ail ddiffinio'r targed yng nghyd destun aflonyddwch Covid.*

*Oren = rhai problemau / ar ei hôl yn yr amserlen.*

*Gwyrdd = ar y gweill / wedi cwblhau, dim gwir broblemau.*

| Targed allbwn | Allbynnau a gyrhaeddwyd | RAG |
|---|---|---|
| **Rhif yr astudiaethau ddichonoldeb : 6** | Comisiynwyd a chyhoeddwyd chwech astudiaeth ddichonoldeb dros gyfnod ei bodolaeth, sef: Y Papur Awgrymiadau Allweddol gwreiddiol, Astudiaeth Ddichonoldeb Tirwedd, Astudiaeth Ddichonoldeb Cynnyrch Lleol, Dichonoldeb Hygyrchedd a Hamdden, Canllawiau Brand Lleol ynghyd â'r Astudiaeth Ddichonoldeb O'r Mynydd i'r Môr. Mae hefyd wedi cyfrannu at seithfed astudiaeth ym Mwlch Nant yr Arian. | G |
| **Nifer y Rhwydweithiau a Sefydlwyd: 7** | Dros y bum mlynedd mae'r prosiect wedi creu o leiaf naw rhwydwaith newydd oddi mewn i ardal Mynyddoedd Cambria (MC). Mae'r rhain yn cynnwys: Canllaw Rhwydwaith Ymwelwyr MC; Rhwydwaith Cynhyrchwyr Lleol MC; Rhwydwaith Wybren Dywyll MC; Rhwydwaith Treftadaeth MC; Rhwydwaith Natur MC; Rhwydwaith Llwybrau MC; Rhwydwaith Llety rhyng-gymunedol Pont ar Fynach / Rhaeadr Gŵy; ynghyd â Grwp Trafod Covid MC. Mae hefyd yn amlwg bod rhwydweithiau anffurfiol wedi tyfu rhwng y busnesau sy'n cydweithio o dan frand MC, ynghyd â sianelau'r cyfryngau cymdeithasol. | G |
| **Nifer y rhanddeiliaid a gynhwyswyd: 95** | Cyfathrebu ac ymgysylltu oedd un o brif gryfderau'r prosiect, er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig COVID-19. Roedd y rhanddeiliaid busnes y cysylltwyd â nhw (gweler isod) wedi gwireddu'r targed hwn ar eu pennau eu hunain. Ymrwymwyd 40 yn ychwanegol trwy fenter yr Hyrwyddwyr Cynnyrch Lleol. Bu rhanddeiliaid eraill yn gysylltiedig ag astudiaethau, yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac mae'r mentrau'n cynnwys CNC, Awdurdodau Lleol, 'O'r Mynydd i'r Môr, Visit Wales, Llywodraeth Cymru ynghyd â chwmnïoedd ffilm a theledu. | G |
| **Nifer. y cyfranogwyr: 420** | Trwy gyfres o gyflwyniadau teithiol, diwrnodau agored, digwyddiadau 'galw heibio', cynadleddau a ffeiriau rhanbarthol a digwyddiadau, mae'r prosiect wedi cofnodi 460 o unigolion a gyfrannodd i gofrestri a thaflenni presenoldeb. Mae'r rhain yn ychwanegol i'r digwyddiadau ar lein a oedd yn cynnwys 50 dros zoom ar gyfer cyfres o gyflwyniadau Wybren Dywyll, gyda 514 o weliadau ar YouTube a 92,768 o wrandawyr ar Astro Radio. | G |
| **Nifer o gymunedau yn elwa: 25** | Ymatebodd 18 o unigolion o wahanol gymunedau i arolwg ar lein yn Chwefror 2022 yn tystio fod eu cymunedau wedi elwa o brosiect y DCF. Cawsom yr argraff fod cymunedau eraill hefyd wedi elwa ond bod y gwaharddiadau Covid-19 wedi llyffetheirio'r gwaith ynghyd â'r estyn allan, gyda'r canlyniad fod rhywfaint o'r gwaith hwn heb ei gofnodi (heb gysylltiad uniongyrchol) ac nad oedd ymwybyddiaeth lleol o rai buddiannau ddim mor amlwg ac y gobeithiwyd. | A |
| **Nifer y busnesau yn elwa: 75** | Roedd 85 o atyniadau, darparwyr gweithgareddau ac sefydliadau bwyd a diod yn gysylltiedig ac wedi eu cynnwys ar Fap Ymwelwyr MC. Roedd 85 o ddarparwyr llety yn awyddus i sicrhau gofod ar y wefan, a 36 o gynhyrchwyr lleol wedi arwyddo i gefnogi gweithgareddau lleol. Roedd arolwg ar lein o fusnesau a wnaethpwyd yn gynnar yn 2022 (Atodiad B) wedi derbyn 104 ymateb unigol. Mewn ateb i'r cwestiwn ynghylch faint yr oeddent yn gwerthfawrogi gwaith prosiect DCF dros y bum mlynedd ddiwethaf, roeddent oll yn gadarnhaol, gyda 91 yn datgan eu bod yn ei werthfawrogi *'cryn dipyn'* ac 13 yn ei werthfawrogi '*ychydig*'. Maent oll wedi elwa mewn rhyw fodd. Roedd yr ymatebion at ei gilydd yn gadarnhaol, ac o ystyried cyfraddau ymatebion i holiaduron ar lein mae'n bur debyg o fod yn dan-amcan o wir rif y busnesau a oedd wedi elwa. | G |

## CANLYNIADAU'R PROSIECT

Nodwyd y canlyniadau canlynol yn y cais cyllido. Cydnabu'r cyfranwyr yn y gweithdy gwerthuso gwreiddiol fod llawer o'r amcanion yn rhai hir dymor ac yn annhebygol o gael eu cwblhau o fewn tymor y cyllido. Cynlluniwyd y gwerthuso yn wreiddiol er mwyn casglu tystiolaeth o dueddiadau yng nghyfeiriad y canlyniad disgwyliedig.

Mae hefyd yn werth nodi fod y pandemig COVID-19, *force majeure* nad oedd yn bosib ei ragweld, wedi amharu a gwyrdroi yr economi ymwelwyr gymaint dros y 2 flynedd ddiwethaf fel bo unrhyw ymgais i fesur effaith y prosiect ar gynhyrchu incwm a chyfradd gynyddol y farchnad ar draws y sector yn amhosib i'w gyfrif. Fodd bynnag, mae tystiolaeth unigol busnesau yn cynnig tystiolaeth fod cynnydd wedi ei weld. (Gweler Atodiad D).

| Canlyniad Targed | Cynnydd at ganlyniad | RAG |
|---|---|---|
| **Creu cynnydd incwm ynghyd â busnes twristiaeth mwy cynaliadwy trwy strategaeth integreiddiedig ar gyfer twristiaeth MC a datblygiad lleoliad terfynol rhwng y sector breifat a'r sector gyhoeddus.** | Mae'r prosiect wedi llwyddo i ddatblygu perthynas gref rhwng y sector breifat a'r sector gyhoeddus, gan sefydlu nifer o bartneriaethau cydweithredol newydd ar draws y rhanbarth. Mae'r dystiolaeth gan y busnesau sydd wedi ymrwymo yn cyfeirio at gynnydd mewn gwerthiant, gwell ymwybyddiaeth o'r cynnyrch ynghyd â chyfleon adwerthu newydd o ganlyniad uniongyrchol i weithgarwch y prosiect. | G |
| **Cynnydd yng nghyfran y farchnad a gwerth cynnyrch Mynyddoedd Cambria trwy bartneriaethau busnes a'r cysylltiadau a ddatblygir rhwng ac ar draws y sectorau bwyd, twristiaeth ac ecosystemau.** | Anodd yw cyfrif, neu hyd yn oed amcangyfrif , yr effaith uniongyrchol ar y cyfran marchnad yn sgil yr aflonyddu ar y sectorau perthynol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yng ngwerthiant cynnyrch cyfredol a'r datblygiad o frandiau newydd penodol MC (e.e. Rym Wybren Dywyll) yn dynodi fod cynnydd i'w weld. Yr hyn sy'n eglur yw fod partneriaethau busnes newydd a pherthnasau wedi datblygu dros nifer o sectorau gwahanol, er enghraifft, dau fusnes yn cydweithio i gynhyrchu rhifyn arbennig o "Gig Moch Wybren Dywyll' gan ddefnyddio rym lleol. Yn sgil y cynorthwy a roddwyd i fusnesau yn ystod y pandemig Covid-19, mae swyddogaeth a phroffil Menter Mynyddoedd Cambria fel partner dibynadwy wedi ei gryfhau'n ddirfawr. | G |
| **Cynnydd cyfran marchnad a gwerth cynnyrch MC trwy ymdriniaeth gyffredin at farchnata a hyrwyddo MC: Marc Ansawdd; llesiant fel thema unol; gwerthoedd brand. Gwell cydlynu rhwng cymunedau MC gan ryddhau buddiannau gweithio integreiddiedig.** | Yma eto, mae cynnydd y gyfran marchnad yn anodd i'w gyfrif o ganlyniad i'r sefyllfa Covid. Yr hyn sy'n eglur yw fod ymdriniaeth gyffredin at farchnata ar y cyd, yn enwedig trwy'r cyfryngau cymdeithasol, i'w weld yn lwyddiant mawr yn gyffredinol. Mae allfeydd lleol bellach yn gwerthu cynnyrch brand MC. Mae'r rhwydweithiau newydd yn hyrwyddo cydweithio integreiddiedig ar draws ffiniau cymunedol ac Awdurdod Lleol am y tro cyntaf; y cyfan o dan frand hunaniaeth sy'n cael ei werthfawrogi a'i gydnabod fel un Mynyddoedd Cambria. Mae mwy o fusnesau hefyd yn mynegi diddordeb mewn defnyddio'r brandio ar gynnyrch newydd ynghyd â chynnyrch sy'n bodoli eisioes. | G |
| **Gwell gydnabyddiaeth o werth MC i dirwedd, natur a diwylliant.** | Mae'r cynnydd mewn cydnabyddiaeth o werth Mynyddoedd Cambria dros y 5 mlynedd ddiwethaf ymhlith busnesau, cymunedau a rhanddeiliaid yn eglur trwy'r gwerthusiad hwn. | G |
| **Gwell canlyniadau ar gyfer natur, tirwedd a gwahanolrwydd ddiwylliannol trwy gefnogaeth i bobl Mynyddoedd Cambria sy'n cynnal y rhain.** | Teg dweud fod y gefnogaeth a'r gwerthfawrogiad o werth tirwedd arbennig a threftadaeth ddiwylliannol Mynyddoedd Cambria wedi cynyddu'n ddirfawr gan y prosiect. Yn enwedig ymhlith busnesau lleol. Daw'r gwelliannau mewn canlyniadau i natur, tirwedd a gwahanolrwydd ddiwylliannol i'r amlwg yn y tymor hir. Gosodwyd y sylfeini ond mae angen ymdrech barhaus i gynnal y gwaith da a gweld parhaol. | G |

## AMCANION EHANGACH Y PROSIECT

Canfyddwyd yr amcanion ehangach hyn yn ystod y gweithdy gwerthuso cychwynnol gyda'r rhanddeiliaid:

| Amcan ehangach y prosiect | Cynnydd a welwyd | RAG |
|---|---|---|
| **Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan, y rwydwaith dwristiaeth a datblygiad brand Mynyddoedd Cambria.** | Fel y gwelir yn y tudalennau sy'n dilyn, un o lwyddiannau prosiect yw codi ymwybyddiaeth o Fynyddoedd Cambria fel cyrchfan ynddo'i hun a'r ffaith bod busnesau bellach yn hyrwyddo gan ddefnyddio'r brand newydd. Yr her fydd cynnal a datblygu'r brand, gan gefnogi busnesau wedi i'r prosiect orffen. | G |
| **Cymunedau lleol yn cyd weithio tuag at wella economi cynaliadwy sy'n cynnal gwerth ddiwylliannol, naturiol a thirwedd Mynyddoedd Cambria.** | Dim ond hanner y stori yw'r rhwydweithiau newydd (gweler canlyniadau) ac mae'n amlwg fod rhwydweithiau anffurfiol a phartneriaethau wedi cysylltu â'i gilydd gan hyrwyddo ei gilydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae yna dystiolaeth wedi ei gofnodi am gydweithio er mwyn creu cynnyrch newydd (Atodiad D). Daeth y prosiect â busnesau at ei gilydd i ddarparu cefnogaeth yn ystod y pandemig COVID-19, ac mae'r cysylltiadau newydd hyn yn un o'r buddiannau y rhagwelir y byddant yn parhau i'r dyfodol. | G |
| **Ymchwil i'r posibilrwydd o sefydlu'r cysyniad *o Barc Naturel.*** | Archwiliwyd y potensial ar gyfer sefydlu dynodiad arbennig, o B*arc Naturel* i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Er i'r gwaith yma gael ei effeithio yn ddiau gan y pandemig COVID-19, byddai'r rhai oedd yn teimlo'n gryf dros ddynodiad o'r math wedi hoffi gweld datblygu pellach ar y syniad. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad nid oes gefnogaeth gyffredinol iddo. Mae llawer o'r farn mai yr hyn y gallai'r ddynodiad ddarparu yn ychwanegol (cyllido, swyddogion prosiect ac ati) sydd fwyaf ei angen yn hytrach na'r ddynodiad ei hun a fyddai'n dwyn cyfyngiadau datblygu ychwanegol yn ei sgil. | G |
| **Hyrwyddo cydweithio a datblygu brand.** | Mae'r prosiect yn ddiau wedi hyrwyddo cydweithio integreiddiedig rhwng busnesau a mudiadau rhanddeiliaid yn y sector gyhoeddus ynghyd â'r drydedd sector. Mae hashnod Mynyddoedd Cambria wedi ei ddefnyddio dros 20,000 o weithiau (roedd mewn ffigyrau dwbl ar ddechrau'r brosiect) ac mae dros 3 mil yn dilyn y cyfrif Instagram.<br><br>Mae adeiladu'r brand hefyd wedi bod yn llwyddiannus, er mae'n anffodus bod canllawiau'r brand wedi cael eu cyhoeddi mor hwyr yn y prosiect. Fe fyddai cefnogaeth swyddogion y prosiect am ychydig fwy o flynyddoedd yn sicr o ddarparu sylfaen cryfach i gynorthwyo busnesau i addasu ac elwa o ddatblygiad y brand. Bu siarter y cynhyrchwyr lleol yn boblogaidd, ac fe ddengys ymchwil mewnol yn gynnar yn 2022 fod 60-65% o gynhyrchwyr lleol yn defnyddio o leiaf logo neu enw Mynyddoedd Cambria ar eu cynnyrch, cynnydd o 27% yng Gorffennaf 2017. | G |

## CANFYDDIADAU RHANDDEILIAID

Casglwyd canfyddiadau rhanddeiliaid trwy gyfres o gyfweliadau lled strwythedig. Roedd rhain yn cynnwys swyddogion prosiect, aelodau'r grŵp llywio, Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Cyngor Sir Powys fel yr arweinydd LEADER), busnesau a buddiolwyr.

Trwy'r modd hwn casglwyd gwybodaeth ar y pynciau eang canlynol :

- Llywodraethiant a systemau prosiect
- Effaith y pandemig COVID-19
- Canfyddiadau a phrofiad o allbynnau a chanlyniadau hyd yma
- Effaith y prosiect
- Gwaddol hir dymor a'r camau nesaf
- Gwersi a ddysgwyd a allai fod yn fuddiol i brosiectau'r dyfodol

Yn yr adran ddilynol, rydym wedi crynhoi'r brif themâu a ddeilliodd o'r trafodaethau ynghylch y pynciau eang hyn:

### PA MOR EFFEITHIOL Y BU'R TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT? A FYDDECH YN GWNEUD UNRHYW BETH YN WAHANOL Y TRO NESAF?

Daethpwyd i'r consenswS bod trefniadau'r llywodraethiant yn effeithiol iawn ac yn gweithio'n effeithiol, gyda chymorth rheolaeth dda o'r Gadair a chefnogaeth dda oddi wrth yr arweinydd ar ran Cyngor Sir Powys. Barnwyd fod y grŵp llywio yn gymharol amrywiol a ddatblygodd dros amser, er bod yna wastad le i wella ac fe wnaed y sylw gan rai y byddai wedi bod yn dda i gael mwy o gynrychiolaeth o sectorau fel amaeth a'r gymuned. Cred rhai y gallai llwyddiant canfyddadwy y prosiect gyfredol gynorthwyo i ddenu aelodau newydd yn y dyfodol (pe ellid gynnal y grŵp) gan fod ganddynt fwy o statws a hygrededd nag oedd ganddynt o'r blaen.

Yn gyffredinol, roedd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y grŵp llywio a monitro LAG yn gweithio'n dda, yn enwedig o gofio'r sefyllfa anodd yn ystod y pandemig COVID-19, gan y bu gofyn i'r grŵp addasu a newid eu harferion gwaith er mwyn symud pob peth ar lein.

### PA MOR EFFEITHIOL Y BU TREFNIADAU RHEOLAETH Y PROSIECT? A FYDDECH YN GWNEUD UNRHYW BETH YN WAHANOL Y TRO NESAF?

Er gwaethaf rhai mân rwystrau cynnar, gan gynnwys y rheolwr prosiect gwreiddiol yn gadael yn gynnar a'r anallu i gynnal cyfarfodyd wyneb yn wyneb yn sgil COVID-19, ymunodd  Dafydd ac Esther, cyfarfu pawb dros Zoom, ac fe aeth y prosiect yn ei blaen. Nodwyd y ffordd y bu i'r tîm addasu rheolaeth a chyflwyniad y prosiect ac fe gafodd ei ganmol gydol yr ymarferiad gwerthuso hon.

Yn gyffredinol, teimlodd pawb fod Dafydd ac Esther yn rheolwyr prosiect gwych, gyda'u sgiliau gwahanol yn cydblethu'n dda.  Esther yn rheoli'r ochr gyllidol a swyddfa'r prosiect, gyda Dafydd yn arwain gyda'r gwaith ymgysylltu. Y consensws oedd bod y cyfuniad hwn yn gweithio'n dda ar gyfer y prosiect, a'u bod wedi gwneud gwaith gwych er gwaethaf y trafferthion yn sgîl y pandemig.

Pe fyddent yn ail ymgymryd â'r prosiect, roedd yna deimlad y dylid cynnwys staff ychwanegol, yn benodol i ddelio â'r ochr weinyddol a rhai meysydd arbenigol. Gellir hefyd weld gwelliant ar reoli pwysau gwaith y staff, o ystyried maint yr ardal yr oeddent yn ymdrin â hi.

### PA MOR EFFEITHIOL Y BU'R TREFNIADAU RHEOLAETH ARIANNOL? A FYDDECH YN GWNEUD UNRHYW BETH YN WAHANOL Y TRO NESAF?

Roedd y trefniadau adrodd yn ôl, a'r rheolaeth ariannol yn effeithiol ac wedi gweithio'n dda; cadarnhawyd hwn gan y grŵp llywio a Swyddogion yr Awdurdod Lleol fel ei gilydd. Cyfeirir yn gyson at waith Esther a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Louise yng Nghyngor Sir Powys fel rhywbeth a fu'n allweddol i'r elfen hon.

Bu cysylltiad cryf rhwng Esther â staff oedd yn arwain ar ran Powys, ac fe dderbyniodd gyngor da. Cawsant ryddid i ymestyn y prosiect gan ei reoli'n dda; cadwyd pawb yn y darlun a chawsant eu diweddaru'n gyson.

## PA MOR EFFEITHIOL Y BU TREFNIADAU CYFATHREBU'R PROSIECT? A FYDDECH YN GWNEUD UNRHYW BETH YN WAHANOL Y TRO NESAF?

Er gwaethaf COVID-19 a newidiodd elfennau cysylltu'r prosiect yn llwyr, a gyda un rheolwr prosiect ar ffyrlo, bu cysylltiadau da gydol y prosiect. Eto, rhaid canmol yr addasiad llwyddiannus i ffurf newydd ar lein o ymgysylltu, yn fewnol ac yn allanol, gan gysylltu â busnesau a chymunedau.

Cyfeirir tro ar ôl tro at frwdfrydedd ac angerdd Dafydd fel cyfrwng i gysylltu a chynnwys rhanddeiliaid a buddiolwyr fel ei gilydd, trwy gyfryngau cymdeithasol a chyfarfod wyneb yn wyneb (pan y caniatawyd hynny). O feddwl, teimlai rhai fod cael 'arbenigwr' mewn cyfryngau cymdeithasol i roi cyngor broffesiynol ar farchnata digidol i'r busnesau wedi bod yn fuddiol, ac fe all fod yn elfen i'w ymchwilio mewn unrhyw brosiect yn y dyfodol.

Rhaid nodi hefyd mai blaenoriaeth yn ystod cyfnod waethaf y pandemig oedd i ymgysylltu a rhannu gwybodaeth perthnasol gyda busnesau lleol. Er nad oedd hwn yn rhan o'r bwriadau gwreiddiol, roedd y gwasanaeth hwn yn werthfawr gan ddarparu cefnogaeth i'r busnesau nad oeddent yn ei dderbyn o ffynonellau eraill. Roedd hwn, yn ddiau, wedi cynorthwyo i sefydlu Menter Mynyddoedd Cambria fel gwasanaeth gwerthfawr gan godi gwerthfawrogiad a phroffil ehangach eu gwaith.

## SUT Y BU I COVID EFFEITHIO AR DROSGLWYDDIAD Y PROSIECT?

Cafodd Covid-19 ddylanwad enfawr ar drosglwyddiad y prosiect. Bu Esther ar ffyrlo, gan adael Dafydd i weithio ar ei ben ei hun. Rhaid oedd gosod o'r neilltu gweithgarwch craidd y prosiect am nad oedd yn bosibl i ymgysylltu â'r cymunedau fel y bwriadwyd. Y flaenoriaeth newydd yn ystod y pandemig oedd i hybu negeseuon ar ran Powys a Llywodraeth Cymru. Er hyn, roedd pawb wedi addasu'n dda, gyda'r gwaith yn cael ei gyflawni yn effeithiol gan i bawb gael eu hysbysu a'u cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Golygai hwn nad oedd pobl yn teimlo'n ynysig. Roedd ymestyniad wedi galluogi adleoli cyllid ac fe gafodd hwn ei reoli'n dda.

Yn gyffredinol, amharwyd ar y prosiect ond fe barhaodd trwy addasu yn ôl y galw, gan ddarparu cymorth gwerthfawr i fusnesau lleol.

## BETH YW'R PRIF NEWIDIADAU A DDAETH YN SGIL Y PROSIECT- YR EFFAITH? BETH SYDD WEDI NEWID DROS Y 5 MLYNEDD DDIWETHAF?

Y newid strategol fwyaf a ddaeth yn sgil y prosiect yw bod Mynyddoedd Cambria bellach yn cael eu cydnabod fel cyrchfan penodol. O gael eu hyrwyddo gan Visit Wales i gael eu cyfeirio yn rhestrau arwerthwyr tai ynghyd â rhagolygon tywydd y teledu.  Nid dyma'r sefyllfa 5 mlynedd yn ôl. Canfyddwyd y prosiect fel un a oedd yn rhoi llais i ranbarth Canolbarth Cymru, gan 'orfodi' Visit Wales i ail feddwl yn ei gylch fel cyrchfan newydd.

Mae busnesau hefyd wedi cymeradwyo'r ffaith fod Mynyddoedd Cambria bellach wedi eu 'gosod ar y map' gan gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith mwy o bobl bod gan yr 'anialwch werdd' hwn gyfoeth o etifeddiaeth a'i fod yn le da i ymweld ag e'. Cyfeirir tro ar ôl tro at yr Wybren Dywyll yn benodol fel gwir atyniad i'r ardal.

Mae brand cydlynol Mynyddoedd Cambria wedi galluogi busnesau i godi ymwybyddiaeth o'u bodolaeth ynghyd â'u cynnyrch, yn aml trwy ddefnyddio sianelau newydd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae busnesau lleol a chymunedau hefyd wedi closio at ei gilydd, ac mae'n rhan o greu ymwybyddiaeth gryfach o 'leoliad'. Mae hyn wedi ei gwneud hi'n haws o lawer i hyrwyddo'r ardal ac mae wedi cael dylanwad mawr ar gymunedau lleol a busnesau, gan gryfhau hygrededd a'r berthynas rhwng Menter Mynyddoedd Cambria, partneriaid a rhanddeiliaid.

Nodwyd hefyd gan fusnesau eu bod yn gallu ymdeimlo ac ystyr o berthyn i rywbeth wrth iddynt gael eu galluogi i gydweithio a chreu cysylltiadau. Daethpwyd â busnesau at ei gilydd o dan faner Mynyddoedd Cambria, gan greu

cymuned rhwng y busnesau cyfrannol.  Roedd hwn yn hynod bwysig yn ystod y pandemig COVID-19 wrth i fusnesau gefnogi ei gilydd.

## PWY SYDD WEDI EI EFFEITHIO FWYAF?

Y canfyddiad cyffredinol yw mai busnesau lleol, yn enwedig busnesau bach iawn, sydd wedi elwa fwyaf. Yn benodol, y rhai hynny sy'n ymwneud â thwristiaeth a chynnyrch lleol. Daeth hwn yn bennaf wrth godi proffil a hyrwyddo'r ardal (y cyrchfan) a'r busnesau unigol, cynnig cymorth a datblygu rhwydweithiau cydlynol newydd.

Gwelwyd hefyd buddiannau i ymwelwyr trwy wella profiadau a magu gwell ymwybyddiaeth o weithgareddau a chynnyrch.

Mae cymunedau lleol hefyd wedi elwa, er bod yr arsylwi yma'n fwy anecdotaidd. Dyma'r elfen a effeithiwyd fwyaf gan COVID-19 am ei bod wedi profi'n amhosibl i ymgymryd â llawer o'r gwaith ymgysylltiol y bwriadwyd mewn digwyddiadau cymunedol.

## PA NEWIDIADAU A DEIMLIR AM FLYNYDOEDD I DDOD?

Newid mawr a welwyd yw cydnabod Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan, ac mae yna wir gred y bydd hwn yn parhau. Mae'r brand, y weledigaeth a'r hashnod wedi galluogi hyrwyddo  Mynyddoedd Cambria, ond bydd angen ymdrech wedi ei gydlynu i'w  gynnal a'i  ddatblygu, yn enwedig heb ddynodiad swyddogol i'r tirwedd.

Deillia'r gred yn hirhoedledd Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan cydnabyddedig o ddatblygiad ymdeimlad cryf ac arbennig o 'leoliad', a'r modd y mae'r rhwydweithiau newydd yn tynnu pobl at ei gilydd o dan frand cyffredin 'Mynyddoedd Cambria' y gall pobl ymgysylltu ag e gan deimlo balchder ynddo. Mae'r diwylliant newydd hwn ymhlith busnesau yn elfen y gwêl pobl fel newid parhaol, ond eto, mae yna gydnabyddiaeth bod angen rhyw gyfrwng i gydlynu'r cyfan.

Mae twristiaeth atgynhyrchiol wedi ymddangos fel cysyniad a fydd yn allweddol i ddatblygiad strategol y sector wrth iddo ddatblygu. Mae llwyddiant gweithgareddau'r 'Wybren Dywyll' yn yr ardal wedi codi ymwybyddiaeth pobl o'r cyfle i symud ymlaen a gwneud cynnydd trawsffurfiol  sydd hefyd yn gynaliadwy.

## PA WEITHGAREDDAU Y GELLIR (NEU Y DYLID) EU CYNNAL YN YR HIR DYMOR?

Mae'n eglur mai'r elfen o'r prosiect a welir fel blaenoriaeth wrth gynnal effaith y prosiect yw i sicrhau gallu staff i gydlynu a datblygu, yn enwedig o gofio diffyg 'Dynodiad Cyrchfan' tebyg i'r rhai sydd gan Barciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol. Bernir fod hwn yn allweddol wrth barhau i hyrwyddo'r ardal yn ogystal â chadw momentwm a gweithgareddau'r rhwydweithiau cydweithredol newydd rhwng busnesau.

Mae datblygiad parhaol twristiaeth atgynhyrchiol yn cael ei danlinellu fel elfen bwysig, gan ddarparu rheolaeth cydlynol o'r amgylchedd a'r economi leol er budd cymunedau lleol.

Yn olaf, mae ymchwilio’n barhaus i'r potensial o 'Ddynodiad Tirwedd' neu o leiaf rhyw drefniant sy'n darparu rhai o'r buddiannau trwy adnoddau, capasiti a phroffil.

## PA DDATBLYGIADAU ERAILL YR HOFFECH EU GWELD (NEU SYDD WEDI EU CANFOD) A FYDDAI'N FUDDIOL I'R RHANBARTH WRTH IDDI DDATBLYGU?

Bydd rheolaeth gynaliadwy y lleoliad ynghyd â datblygiad yr isadeiledd yn allweddol wrth i'r proffil gynyddu a bod gwella'r hyn sydd ar gynnig yn denu ymwelwyr newydd, er mwyn sicrhau y bydd y newid yn darparu buddiannau lleol, heb gorlethu'r tirwedd a'i chymunedau.

Dylid ddatblygu'r cysyniad o dwristiaeth atgynhyrchiol ymhellach, ac fe allai Mynyddoedd Cambria cael eu gweld fel ardal beilot yn hyn o beth. Dylid hefyd barhau gyda chysylltiadau cymunedol er mwyn uno'r grwpiau fel eu bod yn

gweithio'n gyfunol a bod y rhwydweithiau'n parhau. Byddai lleoli pencadlys, wedi ei gyfuno â chanolfan ymwelwyr yn ddefnyddiol yn gyfrwng denu incwm er mwyn ateb cost gweithgareddau yn y dyfodol.

Rhaid pwyso ar Lywodraeth Cymru a Visit Wales i gydnabod yr ardal gan barhau i'w hyrwyddo fel cyrchfan nodedig. Fe allai hwn leihau'r gwasgfa ar leoliadau 'prysur' megis Bannau Brycheiniog ac Eryri, gan arwain at werthfawrogiad ehangach o'r ardal fel cyrchfan. Dylai hefyd fod yna gefnogaeth parhaus i fusnesau lleol, gydag anogaeth i gynnal digwyddiadau a marchnadoedd.

## SUT, YN REALISTIG, Y GELLIR ARIANNU, CYNNAL A THROSGLWYDDO'R DATBLYGIADAU HYN?

Yr argraff gyffredinol yw bod angen cyfuniad o arian cyhoeddus a phreifat (yn ogystal â'r drydedd sector). Tra, ar yr un llaw, cytuna'r rhan fwyaf y dylai busnesau gyfrannu, o bosib trwy gynllun aelodaeth neu gyfrannol gyda busnesau lleol yn cyfarwyddo gwariant, mae yna hefyd gydnabyddiaeth bod y mwyafrif o fewn yr ardal yn fusnesau bach heb fawr o ofod cyllidol i'w fwynhau. Golyga hyn y bydd wastad alw am rywfaint o gyllido cyhoeddus.

Y nod derfynol byddai i brosiect yn y dyfodol neu fudiad i gynhyrchu ei incwm ei hun, a dylid ymchwilio i'r eithaf i'r posibilrwydd hwn. Byddai hwn hefyd yn galluogi'r fenter i gynnal ei hannibyniaeth gan fod yn rhydd o'r amodau sy'n gysylltiedig â grantiau. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd yna derfyn ar botensial creu incwm sy'n ein dwyn yn ôl at yr angen tebygol am fwy o gymorth arian cyhoeddus.

## BETH YW'R GWERSI ALLWEDDOL A DDAW O BROSIECT Y DCF A ALL HYSBYSU CYNLLUNIAU A DATBLYGIADAU'R DYFODOL?

Un o wersi allweddol y prosiect hwn yw fod y bobl cywir yn y llefydd cywir i drosglwyddo'r gwaith. Nid yn unig ym meysydd sgiliau a gwybodaeth, ond hefyd yr angerdd ar gyfer y gwaith ynghyd â'u bod yn meddu ar wybodaeth leol. Cyfeiriwyd at y ffaith i'r brosiect hwn ddarparu mwy na rhai eraill tebyg oherwydd y rheswm hwn. Bu'r cysylltu gyda'r cyhoedd, er yn araf ar y cychwyn, yn allweddol i lwyddiant a chyflawniadau. Felly hefyd gyda magu perthynas gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid fel Visit Wales.

Galluogodd y trefniant o rannu swydd, er nad oedd yn fwriad gwreiddiol, y brosiect i elwa o ddwy set o sgiliau gwahanol a oedd yn cydweithio'n dda. Fodd bynnag, dylai prosiect tebyg yn y dyfodol gyflogi mwy o staff er mwyn ymgysylltu â phobl, trosglwyddo prosiectau a hefyd i reoli baich gweinyddol gynyddol cynlluniau grantiau cyhoeddus.

Wrth edrych yn ôl, cytuna'r grŵp llywio y dylid rhoi mwy o ystyriaeth yn gynharach i gyllido parhaol 'wedi'r brosiect'. "*Dylem fod wedi meddwl am y diwrnod olaf ar y diwrnod cyntaf*". Dymunai rhai busnesau fod y Canllawiau Brandio a'r wefan wedi eu cwblhau yn gynt, fel y gallent fod wedi elwa o gymorth Dafydd ac Esther i'w datblygu dros amser.

O orfod mabwysiadu ffyrdd newydd o gysylltu, daeth yn eglur fod ymgysylltu ar lein yn gallu cyrraedd a chynnwys cynulleidfa ehangach ond nad yw ansawdd yr ymgysylltu hwnnw gystal a'i bod yn fwy anodd i ddatblygu cysylltiadau dibynadwy.

Gall rhywfaint o gyllid isel, o gael ei ddefnyddio'n gyfrifol, fynd ymhell. O ddweud hyn, roedd rhai ymatebwyr wedi rhybuddio rhag y perygl o golli ffocws wrth geisio mynd i'r afael â gormod o faterion ar yr un pryd. Yn olaf, dylai unrhyw brosiect gael ei wreiddio yn y gymuned leol gan ymateb i'w hanghenion, gan weithio ynddi a throsti.

## AROLYGON AR LEIN

Cynhaliwyd dau arolwg gwahanol ar lein yn ystod Chwefror 2022. Y cyntaf yn targedu busnesau lleol (Atodiad B) a'r ail yn casglu gwybodaeth oddi wrth gymunedau lleol (Atodiad C).


### CRYNODEB O YMATEBION BUSNESAU

Roedd cyfanswm o 104 o fusnesau wedi ymateb i'r arolwg wedi iddo gael ei ddosbarthu o gylch rhwydweithiau'r prosiect. Roedd bron hanner (45) yn ddarparwyr llety, gyda'r mwyafrif o'r gweddill yn cynnwys cynhyrchwyr (13), lletygarwch (12), ac atyniadau (11).

Rhyngddynt roeddent wedi canfod eu bod wedi elwa mewn 22 o ffyrdd gwahanol, gyda'r ymatebion mwyaf cyffredin yn nodi *'Cyflwyniad i / dod yn ymwybodol o fusnesau eraill Mynyddoedd Cambria e.e. darparwyr gweithgareddau/cynnyrch lleol'*(84); *'Derbyn diweddariadau parthed datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol*' (80); *'Ysbrydolwyd gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol Mynyddoedd Cambria e.e. Facebook, Instagram neu Drydar'*(80); *Gwneud defnydd o ddeunyddiau marchnata megis Map Ymwelwyr, Canllaw Wybren Dywyll neu'r Llyfryn Tywys Poced*' (75); ynghyd â *'Theimlo'n rhan o gymuned busnes Mynyddoedd Cambria*'(75).

Roedd pob ymatebydd unigol yn credu fod y prosiect wedi llwyddo yn ei bwriad o godi proffil Mynyddoedd Cambria, tra bod 99% o'r farn fod y prosiect wedi cynyddu'r ddealltwriaeth o'r hyn sydd ar gynnig ym Mynyddoedd Cambria; a datblygiad safle Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan yng Nghymru.


Dim ond 3/104 a anghytunodd fod y prosiect wedi ymchwilio'r potensial ar gyfer dynodiad tirwedd i Fynyddoedd Cambria.




Mae'r siart uchod yn tystio fod y prosiect yn cael ei werthfawrogi'n gyffredinol gan yr holl ymatebwyr, gyda phob un o'r farn y dylai gwaith Menter Mynyddoedd Cymru barhau wedi i brosiect y DCF ddod i ben.

Roedd y mwyafrif yn credu y dylid ariannu gwaith yn y dyfodol trwy un ai'r Llywodraeth neu'r Awdurdodau Lleol. Doedd yr un wedi nodi y dylai busnesau gyfrannu!!

Yn olaf, cynigiwyd rhychwant o awgrymiadau ynghylch y ffocws ddewisol ar gyfer dyfodol Menter Mynyddoedd Cambria, fel y dangosir isod.



## SYLWADAU GAN FUSNESAU

***"Mae cael sefydliad sydd wedi ymroi a hyrwyddo ardal Mynyddoedd Cambria yn gaffaeliad gwir werthfawr i economi'r ardal."***

Crynhoir rhai o'r sylwadau ychwanegol a derbyniwyd gan fusnesau:

- Mae'r fenter wedi llwyddo i hyrwyddo'r ardal fel cyrchfan ar sail ei rhinwedd ei hun.
- Gwerthfawrogodd busnesau yr hyrwyddo a'r rhannu gwybodaeth.
- Roedd cael mudiad at bwrpas i gynrychioli Mynyddoedd Cambria yn gryfder, gyda phobl yn ymwybodol y gallent droi ato.
- Mae cydnabyddiaeth bod rhaid adeiladu ar y gwaith da a'i ehangu wrth fynd ymlaen.
- Yr angen am dwristiaeth gynaliadwy a chefnogi busnesau lleol yn hytrach na denu eraill i ymsefydlu yma.
- Fe fydd pobl yn gweld eisiau'r cymorth a'r cyngor pe fyddai'n peidio bodoli ac mae cefnogaeth eang dros barhad y gwasanaeth.
- Mae gwaith caled swyddogion y prosiect wedi cael ei gydnabod tro ar ôl tro, ac yn amlwg yn cael ei werthfawrogi.

***"Diolch i chi gyd ym Menter Mynyddoedd Cambria am weithio mor galed dros yr ardal yn hyrwyddo, cynnal, hysbysu, a chodi proffil y rhan wledig hon o Ganolbarth Cymru, Mynyddoedd Cambria, ardal sydd wedi sefydlu ei hun fel un o ardaloedd "rhaid ymweld â hi' yng Nghymru. Mae eich gwaith wedi tynnu pobl a busnesau at ei gilydd gan weithio fel un gan greu delwedd gryfach. Mae'r angerdd a'r hwyl a berthyn i'ch gwaith yn wych! Diolch."***

## CRYNODEB O YMATEBION CYMUNEDOL

Bu cyfanswm o 24 o ymatebion i'r arolwg, fodd bynnag, gyda rhai nad oeddent yn cyfeirio at gymuned penodol a gyda pheth dyblygu, cynrychiolwyd 18 o gymunedau unigol.

Mae'r ymatebwyr oll wedi nodi bod eu cymunedau wedi elwa mewn rhyw ffordd, gyda'r enghreifftiau mwyaf fel a ganlyn: *'Codi ymwybyddiaeth o'ch cymuned trwy Ganllaw yr Wybren Dywyll' (22); 'Codi ymwybyddiaeth o'ch cymuned trwy'r Map Ymwelwyr' (18); 'Hyrwyddo busnesau lleol, atyniadau, darparwyr gweithgareddau, llefydd i fwyta ac yfed ynghyd â llety' (18); 'Hyrwyddo cynnyrch lleol yn eich cymuned' (16);* a *'Statws swyddogol Wybren Dywyll at gyfer eich cymuned' (15).*

Roedd rhai o'r buddiannau eraill a nodwyd yn cynnwys hyrwyddo digwyddiadau cymunedol, ymweliadau prosiect, gweithdai teithiol a'r cyfarfodydd rhyng-gymunedol.

Gyda golwg ar y dyfodol, roedd yr ymatebwyr wedi canfod ffyrdd eraill y gallai Menter Mynyddoedd Cambria wneud mwy dros y gymuned:

- Canfod cyfleon cyllido ar gyfer mentrau a phrosiectau lleol.
- Parhau i hyrwyddo Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan.
- Cydlynu a marchnata lletygarwch a chynnyrch lleol.
- Sicrhau cydweithio rhwng partneriaid lleol a rhanddeiliaid er budd yr ardal gyfan.
- Mwy o'r un peth!!

***"Cefais argraff ffafriol iawn o Fenter Mynyddoedd Cambria - mwy o'r un peth, os gwelwch yn dda!"***

## DADANSODDIAD

Y Pynciau Gwerthuso Allweddol a ganfyddwyd gan randdeiliaid y prosiect yn ystod cyfnod datblygu'r fethodoleg werthuso sy'n gosod y fframwaith ar gyfer y dadansoddiad. Sef:

- Sut yr ydym wedi gwireddu'r canlyniadau a'r allbynnau a ganfyddwyd?
- Pa mor effeithiol y bu'r systemau prosiect a'r llywodraethiant?
- Beth yw prif effeithiau'r prosiect?
- Beth yw'r waddol allweddol?
- Pa wersi a ddysgwyd er mwyn cyfarwyddo datblygiad pellach o fewn rhanbarth Mynyddoedd Cambria?

### A YDYM WEDI LLWYDDO I GYRRAEDD Y CANLYNIADAU A'R ALLBYNAU A GANFYDDWYD?

Testun clod yw bod holl allbynnau gwreiddiol y prosiect wedi eu gwireddu, er gwaethaf trafferthion y pandemig COVID-19, ac at hynny canlyniadau ychwanegol estyniad y prosiect.

Mynegwyd rhywfaint o siom ynghylch yr argraff a roddir ynghylch diffyg llwyddiant i sicrhau statws dirwedd dynodedig. Fodd bynnag, rhaid cydnabod mai'r nod oedd 'ymchwilio i'r posibilrwydd' yn hytrach na'i wireddu oddi mewn i gyfnod y prosiect, ac fe wnaethpwyd hyn. Methwyd a chyrraedd targed 'cymunedau a gefnogwyd' (ar bapur, o leiaf). Serch hynny, o ystyried effaith y pandemig Covid-19 ar y gweithgareddau ymgysylltiol a fwriadwyd yn wreiddiol, mae yma ffactorau lliniarol.

Mae canlyniadau'r prosiect yn dargedau hir dymor sy'n anodd eu mesur, yn rhannol oherwydd amhariadau y pandemig COVID-19 a oedd wedi effeithio ar drosglwyddiad y prosiect a monitro datblygiad. Yr hyn sy'n eglur yw bod y gweithredoedd a fwriadwyd i drosglwyddo'r canlyniadau hyn, ar y cyfan, wedi eu gwireddu, a gyda chymorth ychwanegol rydym yn obeithiol y byddant yn cael eu gwireddu gydag amser.

Mae amcanion ehangach y prosiect wedi eu canfod yn annibynnol ar y canlyniadau. Rydym yn hyderus bod y rhain wedi eu gwireddu ac y byddant yn parhau i gael effaith gadarnhaol am flynyddoedd i ddod.

### PA MOR EFFEITHIOL Y BU SYSTEMAU'R PROSIECT A'R LLYWODRAETHIANT?

Mae'n amlwg fod llywodraethiant, systemau'r prosiect ynghyd â'r reolaeth gyllidol a berthynai i'r prosiect wedi bod yn rheolaidd ac yn llwyddiannus. Mae hwn yn cael ei gadarnhau ar bob lefel a gan Gyngor Sir Powys, fel y prif fudiad.

Deillia'r effeithlonrwydd hwn o waith cydwybodol 'swyddfa gref' rheolwyr y prosiect, rheolaeth y grŵp llywio, ynghyd â'r gefnogaeth o du'r Awdurdodau Lleol, gyda Phowys yn benodol. Mae hwn i'w ganmol yn enwedig wrth ystyried yr aflonyddu ar batrymau gwaith arferol yn sgil COVID-19. Roedd y ffordd y bu iddynt addasu mewn ymateb i sefyllfa gyfnewidiol yn nodedig.

Dylid cyfeirio yn arbennig at agwedd gyfathrebu'r prosiect, a oedd yn dda oddi mewn i'r prosiect ac a gafodd ei ystyried yn gryfder mawr wrth ymwneud â rhanddeiliaid a buddiolwyr. Yn naturiol, amharwyd ar yr agwedd ymgysylltu cymunedol o ganlyniad i'r gwaharddiadau ar gyfarfod wyneb yn wyneb, ond gwnaethpwyd yn iawn am hyn drwy'r gefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd i fusnesau mewn cyfnod a oedd yn eithriadol o anodd i'r sectorau gwahanol.

### BETH YW PRIF EFFEITHIAU'R PROSIECT?

Prif amcan y prosiect oedd **sefydlu Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan cydnabyddedig ar ei ben ei hun**. Ei gydnabyddiaeth cenedlaethol oddi mewn i'r diwydiant twristiaeth ac yn yr ymwybyddiaeth gyhoeddus trwy gyfrwng y cyfryngau ac yn y maes ddiwylliannol.

O'r pwysigrwydd mwyaf, yn nhermau effeithiau hir dymor, mae wedi **sefydlu brand a hunaniaeth Mynyddoedd Cambria ymhlith busnesau a chymunedau** gyda dealltwriaeth gyffredin o'r hyn ydyw ynghyd â'r buddiannau a ddaw yn ei sgil.

Sefydlwyd rhwydweithiau cydweithredol newydd, sydd wedi **gwella cysylltiadau rhwng busnesau a gyda phartneriaid rhanbarthol a rhanddeiliaid. Daeth â phobl at ei gilydd.**

Er nad oedd yn fwriad gwreiddiol, cafodd y prosiect **effaith arwyddocaol ar barhad a dichonoldeb masnachol busnesau yn ystod y pandemig Covid-19**. Mae hwn yn cael ei gydnabod gan fusnesau a Phartneriaid Awdurdodau Lleol fel ei gilydd.

## BETH YW'R GWADDOL ALLWEDDOL?

Gwaddol barhaol y prosiect fydd **ymddangosiad a sefydlu Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan cydnabyddedig yn ei rinwedd ei hun.**

Fe all **hunaniaeth brand Mynyddoedd Cambria fod yn waddol arwyddocaol aral**l, ond mae hyn yn dibynnu ar gael ei gynnal a'i hyrwyddo gan y partïon oll. Tebyg iawn y bydd angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn galluogi cydlynu'r ymdrech hon.

Bu hefyd **newid arwyddocaol yn nulliau marchnata** ymhlith busnesau lleol, gyda'r elfen ddigidol a'r cyfryngau cymdeithasol yn datblygu fel arf bwerus i hyrwyddo'r ardal a chynnyrch lleol.

**Datblygwyd diwylliant newydd o gydweithredu**, gyda busnesau'n gweld buddiannau perthyn i gydweithfeydd ehangach yn hytrach na chystadleuwyr unigol. Eto, bydd angen meithrin a chynnal hwn er mwyn elwa'n llawn ar y gwaith da a wnaethpwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn olaf, **ymddangosiad 'dwristiaeth atgynhyrchiol' fel cysyniad strategol** gyda'r potensial i lywio datblygiad cynaliadwyedd twristiaeth yn yr ardal am genedlaethau i ddod. Os yw dull 'o'r gwaelod i fyny' hwn yn lwyddiant dros ardal mor eang, fe all fod yn esiampl y gallai ardaloedd gwledig eraill dysgu ohoni a'i hailadrodd yn y dyfodol.

## PA WERSI A DDYSGWYD A ALL GYFARWYDDO DATBLYGIAD YN RHANBARTH MYNYDDOEDD CAMBRIA YN Y DYFODOL?

Crynhoir rhywfaint o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r prosiect isod ac fe ddylid eu hystyried o fewn cyd-destun unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol:

- Mae sicrhau'r bobl cywir gyda'r wybodaeth, sgiliau a'r angerdd i lwyddo yn allweddol i lwyddiant unrhyw brosiect.
- Mae cysylltu â'r cyhoedd a meithrin partneriaethau cadarn, gyda buddiolwyr lleol a phartneriaid strategol yn holl bwysig.
- Mae yna bwysau gweinyddol cynyddol ar y prosiectau hyn, ac yn ogystal â phwysigrwydd ymwneud personol mae'n hanfodol fod digon o adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer tîm o faint digonol, nid yw hwn yn waith ar gyfer un person!
- Rhaid ystyried y camau nesaf a'r waddol hir dymor yn gynnar, yn enwedig wrth sicrhau cyllid i gynnal y gwasanaethau allweddol sydd wedi eu datblygu ynghyd â chynnal y buddiannau hir dymor.
- Os yn bosibl, dylid trosglwyddo allbynnau ac adnoddau megis brandio, gwefannau newydd ac ati yn gynharach yn y prosiect er mwyn galluogi tîm y prosiect i gynnal eu sefydlu a'u hintegreiddio (er, yn yr achos hwn mae'n cael ei gydnabod fod hwn yn rhannol ganlyniad i'r pandemig Covid-19 yn amharu ar y cynllun waith).
- Mae cysylltu ar lein yn gweithio ac mae ganddo'r potensial i gyrraedd cynulleidfa lawer ehangach. Fodd bynnag, nid yw ei effaith mor gryf, ac mae'n fwy anodd i sefydlu ymroddiad a chysylltiadau cadarn.
- Mae angen i brosiectau cadw eu ffocws er mwyn trosglwyddo'r budd fwyaf a gochel rhag gwasgaru adnoddau'n rhy denau.
- Dylai unrhyw brosiect gael ei blannu yn y gymuned gan ateb i ofynion a chydweithio â'r gymuned.

## CASGLIADAU

Mae'r prosiect wedi sefydlu Menter Mynyddoedd Cambria fel mudiad cynrychiolaidd sy'n cynnig cefnogaeth werthfawr i fusnesau lleol a chymunedau, gan ddarparu buddiannau ar draws ardal Mynyddoedd Cambria.

Er gwaethaf anrhefn a'r amharu a fu yn sgil y pandemig Covid-19, mae'r prosiect wedi llwyddo i ddarparu'r allbynnau allweddol, ac mae gennym lefel uchel o hyder yn nhrosglwyddiad yr allbynnau hir dymor ynghyd ag amcanion ehangach y prosiect.

Bu llywodraethiant a rheolaeth y prosiect yn arbennig o gryf, a deillia hwn o'r cysylltiadau da rhwng gweithwyr a chefnogaeth y naill i'r llall. Rhaid cyfeirio'n benodol at y ffordd y mae tîm y prosiect a'u partneriaid wedi addasu eu hymarferion gweithio mewn cyfnod anodd er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus y prosiect.

Mae'r prosiect yn gadael gwaddol arwyddocaol, ond bydd yr effaith yn yr hir dymor yn ddibynnol ar ddod o hyd i gyllido ychwanegol i gynnal staff allweddol a pharhau'r gweithgarwch.  Heb os, gwelwyd newid yn arferion gwaith a chanfyddiadau'r ardal, yn ogystal â denu cydnabyddiaeth eang. Serch hynny, rhaid cydlynu hwn wrth symud ymlaen ac mae'n bwysig na chollir y momentwm cyfredol.

Yn olaf, mae llwyddiant y prosiect hwn yn ddyledus i'r bobl cywir yn gwrando ac yn cydweithio gyda busnesau lleol a chymunedau gan drosglwyddo atebion addas ac ymarferol i broblemau  lleol. Trwy hyn oll maent wedi creu buddiannau arwyddocaol allan o fuddsoddiad gymharol fach.

Dymunwn y gorau i chi wrth fynd ymlaen ac edrychwn ymlaen at weld y  bennod nesaf yn natblygiad cynaliadwy tirwedd Mynyddoedd Cambria.

## Y CAMAU NESAF

Mae'n bwysig nad yw'r gwaith da yn dirwyn i ben gyda therfyn y cyllido cychwynnol, a bod y momentwm yn cael ei gynnal wrth symud ymlaen. Canfyddwyd rhai camau allweddol trwy'r gwerthusiad a ddylai rhoi rhyw arweiniad tuag at ddatblygu'r gwaith hwn:

### Y TYMOR BYR

- Mae gwerth staff yn cydlynu ac yn llywio'r gwaith ynghyd â chysylltiadau personol yn allweddol i lwyddiant y gwaith hwn. Os yw swyddogion yn gadael, maent yn mynd â'r wybodaeth a'r adnabyddiaeth gymdeithasol gyda nhw. Mae  dod o hyd i gyllido i gynnal ac ehangu'r tîm cyfredol yn flaenoriaeth. Yn fwy na thebyg, cyllid grant wedi ei gyplysu'n debyg yn lleol.
- Gydag adnoddau'n lleihau mae angen blaenoriaethu'r gweithgareddau sy'n allweddol i gynnal y gwasanaethau mwyaf gwerthfawr, sy'n allweddol i broffil a gair da y mudiad er mwyn cadw momentwm. Gall rhain cynnwys parhau i sefydlu a thyfu'r brand, hyrwyddo'r cyrchfan ynghyd â chynnal y gefnogaeth a'r cysylltu gyda busnesau.

### Y TYMOR CANOLIG

- Datblygu prosiectau newydd gyda rhanddeiliaid lleol a sicrhau cyllid i ymgymryd â nhw. Gyda'r rheolaeth briodol fe all fuddsoddiad gymharol fach fynd ymhell a gwneud gwahaniaeth mawr.
- Archwilio'r potensial i gynhyrchu eich incwm eich hun er mwyn gwneud y mudiad yn fwy hydwyth ac annibynnol.

### YR HIR DYMOR

- Sefydlu tîm parhaol ar lun model gynaliadwy hir dymor.
- Archwilio'r potensial am ganolfan ganolog/pencadlys.
- Archwilio Dynodiadau Tirwedd os yw hynny'n dal i gael ei ystyried yn ddatblygiad gadarnhaol.